CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

ARWEINIAD I GYMORTH CLUDIANT YSGOL

DISGYBLION O DAN 11 SY'N BYW DROS 2 FILLTIR O'R YSGOL

Mae'r AALl yn darparu cludiant am ddim i ddisgybl o dan 11 oed sy'n byw dros 2 filltir o'r ysgol addas agosaf.

DISGYBLION OED YSGOL STATUDOL, DROS 11 OED SY'N BYW DROS 3 MILLTIR O'R YSGOL

Mae'r AALl yn darparu cludiant am ddim i ddisgybl dros 11 oed, o oed statudol sy'n byw dros 3 milltir o'r ysgol addas agosaf.

TOCYNNAU TEITHIO GOSTYNGEDIG

Gall tocynnau teithio gostyngedig fod ar gael ar rai llwybrau i ddisgyblion nad ydynt yn gymwys o dan unrhyw o'r meini prawf uchod. Bydd prisiau yn amodol i adolygiad blynyddol. Cysylltwch â'r Adran Gludiant ym Mochdre ar 01492 577899 i gael mwy o wybodaeth.

RHESYMAU MEDDYGOL

Darperir cludiant pan fo ar ddisgybl ei angen am resymau meddygol ac nid oes cludiant cyhoeddus ar gael. Bydd unrhyw gais am ddarpariaeth cludiant angen ei ardystio gan ymgynghorydd neu arbenigwr a'i gyflwyno gyda'r cais. Bydd trefniant o'r fath yn amodol i adolygiad achlysurol.

ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Gellir trefnu cludiant arbennig pe bai gan blentyn Anghenion Addysgol ar ddatganiad i fynychu ysgol a nodwyd.

ARALL

Os teimlwch bod gennych hawl i gymorth cludiant amgeuwch lythyr ac anfonwch ef gyda'r ffurflen gais.

LWFANS TEITHIO/AD - DALU

Mewn amgylchiadau cytunedig, er engraifft, pan na ellir trefnu cytundeb bws ysgol, gellir talu lwfans teithio i rieni pan fo eu plant yn cyfarfod un o'r meini prawf uchod ac yn gallu eu cludo i'r ysgol.

Mae ffurflenni hawlio ar gael drwy gysylltu â Gwasanaethau Addysg 01492 575595 neu drwy wefan y Cyngor www.conwy.gov.uk (Addysg a Theuluoedd)

Dychweler os gwelwch yn dda at Gwasanaethau Addysg, Adain Rheoli Safle, PO Box 1, Conwy LL32 9GN